

Enw'r Ymgeisydd	Rhif y Ganolfan	Rhif yr Ymgeisydd

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

342/51

CYFRIFIADURO CP2

Y CYFRIFIADUR, DATA A CHYMWYSIADAU

P.M. DYDD IAU, 8 Mehefin 2006

(1½ awr)

I'r Arholwr yn unig		
Cwestiwn	Uchafswm marciau	Marc a ddyfarnwyd
1	3	
2	7	
3	3	
4	4	
5	11	
6	5	
7	7	
8	3	
9	2	
10	5	
11	10	
Cyfanswm	60	

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Dylid ysgrifennu'r atebion yn y mannau a ddarperir. Os na fydd digon o le ar gyfer eich ateb, defnyddiwch y dudalen 'Parhad yn unig' yng nghefn y llyfr, gan gofio cynnwys rhif y cwestiwn priodol.

Rhoddir y marciau sydd ar gael am gwestiynau neu rannau o gwestiynau mewn cromfachau []. Cynhorir chi i ranu eich amser yn unol â hynny. Cyfanswm y marciau sydd ar gael yw 60.

Atgoffir chi bod angen cyfathrebu ysgrifenedig da a chyflwyniad trefnus yn eich atebion.

1. (a) Un o nodweddion pecyn prosesu geiriau yw thesawrws. Sut gallai athro ddefnyddio'r nodwedd hon wrth ysgrifennu adroddiadau diwedd blwyddyn? [1]

.....
.....

- (b) Dangosir isod ran o daenlen y mae athro'n ei defnyddio i gynhyrchu canlyniadau arholiadau a dangosir y fformiwlâu hefyd. Defnyddir ffwythiant *IF* i benderfynu a yw disgylb wedi llwyddo neu wedi methu yn yr arholiad.

	A	B	C
1			
2	Pass Mark	60%	
3			
4	<i>Pupil Name</i>	<i>Exam Mark</i>	<i>Pass or Fail</i>
5			
6	David Blithe	23%	=IF(B6>=B2, "PASS", "FAIL")
7	Helen Carter	70%	=IF(B7>=B2, "PASS", "FAIL")
8	Harry Davies	42%	=IF(B8>=B2, "PASS", "FAIL")
9	Jane Evans	95%	=IF(B9>=B2, "PASS", "FAIL")
10			
11			

- (i) Pan na ddangosir y fformiwlâu, beth fydd yn ymddangos yng nghell C6 ac yng nghell C7? [1]

C6

C7

- (ii) Disgrifiwch **un** nodwedd arall o daenlen y gallai'r athro ei defnyddio i ddadansoddi'r data hyn. [1]

.....
.....

2. Mae ysgol ar fin cael offer i ystafell gyfrifiaduron newydd. Mae'r penneth yn gofyn i'r adran gyfrifiaduron argymhell gosod naill ai dau ddeg o gyfrifiaduron arunig neu osod rhwydwaith o ddau ddeg o gyfrifiaduron.

- (i) Ar wahân i rannu caledwedd fel argraffydd, rhowch **ddau** reswm pam y byddai'r adran yn debygol o argymhell gosod rhwydwaith. [2]

.....

- (ii) Rhowch **un** rheswm pam y gallai'r adran argymhell gosod cyfrifiaduron arunig. [1]

.....

- (iii) Mae'r adran yn argymhell defnyddio sbwllo (*spooling*) ar gyfer argraffu ar y rhwydwaith.

- (I) Rhowch **ddau** reswm pam y byddai'r adran yn argymhell sbwllo wrth argraffu ar y rhwydwaith. [2]

.....

- (II) Eglurwch **yn fanwl** sut y defnyddir *sbwllo* ar gyfer argraffu ar rwydwaith. [2]

.....

3. (a) Nodwch beth yw ystyr cof *disg cache*, ac eglurwch pam y defnyddir cof disg cache. [2]

.....
.....
.....
.....

- (b) Mae gyriannau disg yn defnyddio *blociau* wrth drosglwyddo data i ddisg ac o ddisg.
Beth yw *bloc*? [1]

.....
.....

3

4. (a) Mae'r data sy'n cael eu mewnbrynnu i gronfa ddata yn aml yn cael eu *gwirededu* (*verify*). Diffiniwch y term *gwirededu data* (*data verification*), gan roi enghraifft addas. [2]

.....

- (b) (i) Dangosir isod un dull o gyfrifo digid gwirio ar gyfer cod tri digid.

- Caiff y digid de ei luosi ag 1.
- Caiff y digid canol ei luosi â 2.
- Caiff y digid chwith ei luosi â 3.
- Yna caiff y tri rhif a gyfrifir uchod eu hadio.
- Y digid gwirio yw digid de'r rhif sy'n deillio o hyn.

Cyfrifwch y digid gwirio am y cod **147**. [1]

.....

- (ii) Beth yw pwrrpas digid gwirio? [1]

.....



5. (a) Caiff manylion personol aelodau o gampfa *Cadw'nIach* eu storio ar gardiau mynegai (*index cards*) wrth y ddesg yn y dderbynfa. Mae aelodau'n llofnodi llyfr sy'n cael ei gadw wrth y ddesg yn y dderbynfa bob tro maen nhw'n mynd i'r gampfa. Bob mis mae perchennog y gampfa'n dadansoddi'r llyfr ym welwyr.

Mae Kim yn ddadansoddwr systemau sy'n argymhell defnyddio system gronfa ddata gyfrifiadurol yn lle'r system hon sydd wedi'i seilio ar bapur.

- (i) Disgrifiwch **ddwy** broblem bosibl a allai ddigwydd gyda'r system bresennol sydd wedi'i seilio ar bapur ac eglurwch sut y gallai'r system gronfa ddata gyfrifiadurol newydd ddatrys y problemau **hyn**. [4]

.....

- (ii) Mae Kim yn argymhell ffurf newydd o fewnbynnu data sy'n gofyn am ddefnyddio cerdyn aelodaeth. Enwch ddyfais mewnbwn benodol a allai gael ei defnyddio i ddarllen y cerdyn hwn, ac eglurwch **yn fanwl** sut y gellid defnyddio'r data sy'n cael eu cadw ar y cerdyn i ddiweddar u'r gronfa ddata. [3]

.....

- (iii) Disgrifiwch un **anfantais** i berchennog y gampfa o gyflwyno'r system gyfrifiadurol newydd hon. [1]

.....

(b) Mae aelodau'r gampfa'n talu trwy ddebyd banc uniongyrchol a chaiff eu manylion banc a'r manylion talu eu storio yn y gronfa ddata. Bydd yn rhaid i berchennog y gampfa gydymffurfio â'r Ddeddf Gwarchod Data. Dwy o'r egwyddorion y bydd yn rhaid i'r perchennog gydymffurfio â nhw yw:

- bydd y data yn cael eu casglu'n gyfreithlon,
- bydd y data yn cael eu defnyddio ar gyfer y pwrrpas y bwriadwyd hwy yn unig.

Disgrifiwch **dair** egwyddor **arall** y bydd yn rhaid i berchennog y gampfa gydymffurfio â nhw. [3]

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

11

6. (a) Yr enw am y modd gweithredu sy'n rheoli awyren yw prosesu amser real. Disgrifiwch **yn fanwl** sut mae prosesu amser real yn gweithio yn yr achos hwn ac eglurwch pam hwn yw'r modd mwyaf addas o weithredu. [3]

- (b) Yr enw am y modd gweithredu sy'n cael ei ddefnyddio i archebu tocynnau theatr yw prosesu trafod amser real. Disgrifiwch **yn fanwl** sut mae prosesu trafod amser real yn gweithio yn yr achos hwn ac eglurwch pam hwn yw'r modd mwyaf addas o weithredu. [2]


7. (a) Eglurwch y gwahaniaeth rhwng *trefnu ffeil cyfresol* a *threfnu ffeil dilyniannol*. [2]

.....
.....
.....
.....

- (b) Gall cofnodion o fewn ffeil fod o hyd *sefydlog* neu o hyd *newidiol*. Rhowch **un** fantais cofnod hyd *sefydlog* ac **un** fantais cofnod hyd *newidiol*. [2]

.....
.....
.....
.....

- (c) Lluniwch **ddiagram manwl** sy'n dangos yn glir sut caiff y brif ffeil ei diweddar gan ddefnyddio ffeil drafod pan fydd cwmni'n rhedeg y rhestr gyflogau misol. [3]



- 8.** Mae gan gyngor lleol ei wefan ei hun, y mae modd mynd iddi trwy'r Rhyngrwyd. Mae'r cyngor yn ystyried sefydlu Mewnrwyd staff.

(i) Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y Rhyngrwyd a Mewnrwyd?


[1]

.....
.....
.....
.....

- (ii) Gan roi enghraifft, eglurwch pa fath o wybodaeth a fyddai gan y cyngor ar eu Mewnrwyd staff ond nid ar eu gwefan Ryngrwyd.

[2]

.....
.....
.....
.....



- 9.** Eglurwch ystyr pob un o'r termau canlynol:

(i) bws cyfeiriad;


[1]

.....
.....
.....

(ii) bws data.

[1]

.....
.....
.....



10. (a) Mae llawer o bobl nawr yn defnyddio Cynorthwy-ydd Digidol Personol (*Personal Digital Assistant – PDA*) neu gyfrifiadur cledr llaw. Yn aml mae'r dyfeisiau hyn yn rhy fach i fod â bysellfwrdd y gellir ei ddefnyddio ac mae llawer yn defnyddio adnabod llawysgrifen.

- (i) Rhowch **un** fantais ac **un** anfantais defnyddio adnabod llawysgrifen fel dull mewnbwn. [2]

.....
.....
.....
.....

- (ii) Disgrifiwch **un** dull addas arall o fewnbwn ar gyfer y math hwn o ddyfais. [1]

.....
.....
.....

- (b) Defnyddir *PDA*s a chyfrifiaduron cledr llaw yn aml i storio gwybodaeth bersonol a chyfrinachol. Mae gan rai dyfeisiau *Bysbrintio Biometrig* (*Biometric Fingerprinting*) sy'n sganio olion bysedd y perchenog i gadarnhau pwy ydynt.

Disgrifiwch **ddau** reswm pam y gall y dull hwn o ddiogelwch fod yn well na chyfrineiriau. [2]

.....
.....
.....
.....

5

11. Yn y cwestiwn canlynol, enillir credyd ychwanegol (hyd at 3 marc) os yw eich ateb yn dangos sgl mewn cyfathrebu ysgrifenedig.

Mae llawer o weithwyr swyddfa nawr yn defnyddio cyfrifiaduron trwy'r dydd ac maen nhw angen cyrchu'r Rhyngrwyd ac e-bost. Mae rhai cyflogwyr yn caniatáu i weithwyr gael defnydd cyfyngedig o'r Rhyngrwyd ac e-bost ar gyfer eu defnydd personol.

Disgrifiwch unrhyw **anfanteision** neu **fanteision** i'r cwmni o ganiatáu i weithwyr gyrchu'r Rhyngrywd ac e-bost ar gyfer eu defnydd personol.

Disgrifiwch unrhyw ofidiau iechyd a all fod gan gyflogwyr am eu gweithwyr sy'n defnyddio cyfrifiaduron am gyfnodau hir. Eglurwch unrhyw fesurau ataliol (*preventative*) y gellir eu defnyddio i leihau'r peryglon hyn. [7 + 3]

(342-51)

Trosodd.

Parhad yn unig (unrhyw gwestiwn)